a'th gref ddeheu-law codi:

14 Nawdd a barn yw dy orfedd hir,
a nawdd a gwir a geri.

15 Eu gwîntyd i'r holl bobl a fydd,
a fo'u llawerwydd ynod:

16 Ac yn llewyrch dy wyneb glân
y rhodian i gyfarfod.

17 Yu d' unig enw di y caint
fawl a gogoniant beunydd:

18 Yn dy ghyawnder codi 'wnant,
ac felly byddant ddedwydd.

19 Can's ti wyt gryfder eu nerth hwy
lle caffen twy o dyciant;

20 Tydi a ddyrcheifi eu cyrn,
ac felly cedyrn fyddant.

21 Can's o'r Arglywydd, a'i ddaioni,
y daw i ni ymddiffin:

O Sanct Israel trwy ei law,
oddiyno daw ein Brenhin.

23 I'th Sanct y rhoiost gynt wybodaeth,
trwy weledigaeth nesol:

Gofodafas gynnorth ar gryf Gun;
dyrcheifas un dewioli.

25 Cefais (enneinias ef yn ol)
fy ngwas newifol Dafydd

26 Ag olew sanct: braich a llaw gref
rhoiost gyd ag ef yn llywydd.

27 Ni chaiff gelyn ei orthrymmu,
na'i ddrygu un mab enwir:

28 O'i flaen y coetha'i elynion,
a'i holl gaeion dihir.

29 Fy ngwirionedd, a'm trugaredd,
rhof si trwy gariad iddo:

30 Ac yn fy enw i yn ddiôr
dylchlefir ei gorn efo.

31 Gofodaf ei law ar y môr,
ac o'r goror bwygilydd:

A gofodaf ei law ddeau
hyd derfynau'r afonydd.

32 Ef a weddia arnaf fi
i'w galedi, gan dd'wedyd.

Tiyw fy Nhad, fy Nuw, fy Ngharn,
yn gadarn o'm hieuengôd.

34 Minnau gwraf yntau im' yn Fab,
yn Gynfab ac Efifedd,

A frenhinoedd y ddacar las,
yn uwch ei ras a'i fawredd.

35 A chadwaf iddo (yr un wedd)
drugaredd yn dragwyddol:

Am cyfammiod iddo yn llawn,
yn ffyddlawn, ac yn nerthol.

37 Golodaf hefyd hyth itw had
nerth a mawrhâd uwch bydoedd:

A'i orfedd-faingc ef i barhau
un wedd â dyddiau'r nefoedd.

38 Ond os ei blant ef (trwy ariol)
nid ant yn ol fy nghyfraith,

Os hwy ni rodiant, gan barhau,
i'm beirn a'm llwybrau perffaith;

39 Os fy neddfau a halogant,
ni chadwant fy holl eirchion:

40 Yna ymwelaf a'u cam gwrs,
a gwialiau fcwrs, neu goedffon.

41 Ond ni thorraf ag ef un nôd
o'm hammod a'm trugaredd:

Ac ni byddaf fi ddim yn ol
o'm hyffyriol wirionedd.

43 Ni thorraffy nghyfammod glân,
a ddaeth allan o'm genau:

Ac ni newidiad air o'm llw;
mi a rois hwnnw 'n ddiau.

45 Yn fy sancteiddrwydd tyngais im',
na phalwn ddim i Ddafydd:

46 Bydd ei had a'i drwn, yn ddi draul,
o'm blaen fel haul tragywydd.

47 Yn dragwydd y sicrheir ef,
fel cwrs (in nef) planedau
Haul neu leuad, felly y bydd
ei gwrs dragwydd yntau,

48 Ond ti a'n ffieiddiaist ar fyr,
ac yn ddifyrtyr lidiog:

Ti a gyffroaist yn dra blin
wrth dy Frenhin enneiniog.

49 Diddymmaist di dy air i'th was,
a'th ras, a'th addewidion:

Ac a'i halogaitt of yn fawr,
gan daflu i lawr ei goron.

50 A drylliaist ei fagwyrydd ef,
a'i gaer gref rhoiost yn adwy:

51 Yn egored felly y mae
yn brae i bawb sy'n tramwy.

52 I'w gymdogion gwarthrudd yw ef,
a than law gref ei elyn:

Allawen iawn y codent floedd,
bob rhai a oedd i'w erbyn.

53 Troiost hefyd fin eu cleddau ef,
a'i law oedd gref, a blygaist:

54 Darfu ei lendif ei, a'i wawr,
a'i drwn i'r llawr a fwriaith.

55 Pryd ei icuengôd heibio 'r acth,
a thi a'i gwnaeth cyn fyred:

Allwraist drosto w'r adwydd mawr,
o nen hyd lawr y torred.

56 Pa hŷd, fy Nuw, y byddi'nghudd?
ai byth, fy Llywydd nefol?

A lyig dy lid di fel y tan
yn gyfan yn dragwyddol?

57 O cofia f' oes ei bod yn fêr:
ai'n ofer gynt y gwnaethoit
Holl blant dynion? O dal dy law,
ac in' ni ddaw yn rhydol.

58 Pa wr y sydd â'i oes dan fel,
na ddêl marwolaeth ato?

Pwy a all ddfangc, ac ni ddaw
y gaib a'r rhaw i'w guddio?

59 O mae dy noddod, Arglywydd gynt?
mae hielint dy drugaredd?

Mae dy lw, o yftirol ffydd,
i Dafydd i'th wirionedd?

60 Cofia, Arglywydd, yn w'r adwydd llym
lle'r ydym ni, dy weifion:

Yr hwn a dawd i'm mynwes i,
gan ffroet y cawri mawrion.

62 Yr hwn warth'r oedd d'elyniol di
it yn ei roddi 'n llidiog:
(Fy Arglywydd Dduw) a'r un farhâd
i droediad dy Enneiniog.

63 Moler yr Arglywydd byth, Amen;
a byth Amen, hyn fyddo;

PSALM XC, XCII, XII.

Moler yr Arglywydd byth, Amen;
a byth Amen, hyn fyddo.

PSALM XC.

DU W! buoſt in' yn Arglywydd da,
ac yn brefwylfa i drigo:
O bryd i bryd, felly yr aeth
pob rhw y genhedlaeth heibio.
2 Er cyn rhoi fail un mynydd mawr,
cyn llunio llawr cwmblas-fyd,
Dyw! o dragwyddol wyt cyn neb,
hyd dragwyddoldeb hetyd.
3 Weithiau i ddingfr y troi ni;
troi diithau wedi'n rhwyd:
A d'wedi, cyn ein myn' i' llwch,
Dychwelwch, meibion Adda.
4 Can's deg can mlynedd fel doc ynt,
pan elo i' helynt heibio,
O'i flaen di megis gwylyfa nos,
ni chaiff ymddangos etto.
5 Nid yw dŷn ond fel hûn, neu ail
i addai, neu lifeiriant:
Neu megis glas lyfieuny gwan;
mor fuan y newidiant.
6 Yr hwn y bore gwyrddlas fydd,
a gwawr o newydd arno:
Ond pan y torer ef brydnawn,
yn fuan iawn mae'n gwywo.
7 Can's yn dy lid difethwyd ni,
gan ofni dy ddigofaint:
8 Rhoiſt di ein beiau gar dy fron,
a'n holl ddirgelion dryg-haint.
9 Can's trwy dy ddig mae'n dyddiau ni
a'n tegwch gwedi darfod:
A'n holl flynyddoedd ynt ar ben,
fel gorphen hen chiwedl gorfad.
10 Ein holl flynyddoedd yw faith ddeg;
dau bump 'chwaneg, os bydd grym:
Yna ein nerth a'i boen blin iawn,
i ffordd yr awn yn gyflym.
11 Ond pwys a edwyn nerth dy lid?
mawr ofid fydd o'th forri:
Sef, fel y mac dy ofn di'n fawr,
dy ddig fydd ddifawr ini.
12 Dysg felly 'n rifo 'n dyddiau gwael,
i'n calon gael doethineb:
13 Duw, pa hŷd? ty'r d, a dod yn hawdd
i'th weision nawdd ac undeb.
14 Yn fore iawn diwaliau ni
a'th fawr ddaioni eiōes:
Fel y castom ni lawen fyd
yn hyfryd dros ein heiniōes.
15 Gwna ni yn llawen; buom brudd,
pan oedd in' gyttud dybyrdd:
A chwedi llawer blwyddyn drom,
y rhai a gawfom adfyd.
16 O Dduw, gwna weled dy fawr waith,
a'th wŷthiau maith i'th weision:
A'th odidowgrwydd, a'th ffiniant,
ym mylg eu plant a'u hwyrion.
17 Arnom ni dred rhad Duw, a'i nerth,
ei allu prydferth weithiau:
Duw, dod ein gwaith mewn trefnid dda;
Duw, trefna waith ein dwylaw.

PSALM XCII.

YSAWL a drigo, doed yn nes,
yn lloches y Goruchaf:
Ef a ymerys i gael bod
vnglywyd god hwn fydd bennaf.
2 Fy holl ymddiffyn wyt, a'm llwydd,
wth fy Arglywydd y d'wedaf:

A'm holl ymddiried, tra fwy fyw,
fydd yn fy Nuw Goruchaf.
3 Can's ef a weryd yr oes dau,
oddiwrth faglau yr heliwr:
Ac hefyd oddiwrth bla, a hajet
echrys-haint, ac anghyflwr.
4 Ei efgyll drofot ef a rydd,
dan ei adenyydd byddi
Yn ddiogel: a'i wiredd gred
fydd gylch a bwclid iti.
5 Ni ddychryni er twrf y nos,
na'r dydd o achos hedfaeth:
6 Er haint, neu bla, mewn tywyll fydd,
neu hanner dydd, marwolaeth.
7 Wrth dy ythys y cwympa mil,
a dengmil o'th law ddeau:
Ac ni ddaw drwg yn dy gyfyl;
a thi a'i gwyl yn ddiau.
8 A'th lygaid y gweli i ddi
i'r enwir gwmamal anian:
9 Sef fy holl obaith wyt (O Dduw)
ac uchel yw drigfan.
10 Ni ddigwydd niweid it', ond da,
na phila, na dim echrylon,
I'th eglwys a'th gyn lleidfa nawdd:
11 Can's archawdd i'w angylion.
I'th ffyrrd dy gadw, a'th gynllwyn,
a'th ddwyn a'u dwylaw hardd-deg;
12 Rhag digwydd i' ddrrwg (hyd yn oed)
taro dy droed wrth garreg.
13 Dy fangfa fydd ar y llew dig,
a'r asp wenwynig fethri:
Ar greulon genua'r llew o'r graig,
ac ar y ddraig, y fengi.
14 Mi a'i gwaredaf ef rhag brad,
am roi ei gariad arnaf:
Am adnabod fy enw maw,
yn ddiau y dyrchafat.
15 Geilw arnaf, m'a'i gwrandawaf,
mewn yng y byddaf barod:
Gwaredaf helyd rhag ei gas,
a chaffi trwy urddas fawrglod.
16 Fo gaiff fwy yn ddigon o hŷd;
caiff yn y byd hir ddyddiau:
Dangofaf iddo radlawn facth,
a'm hiachawdwriaeth innau.

PSALM XII.

MOLIANNU'r Arglywydd da iawn yw,
a chyfarth Duw yn bennaf:
A chanu i'th enw di fawl,
a'th ganmawr (y Goruchaf)
2 Y bore ari dy drugaredd,
a'th wirionedd son y nos:
3 Ar ddeictant, nabyl, a thelyn,
myfyrio hyn, a'i ddangos.
4 Sef, trwy dy weithred llawen wy',
eunyn o nwy 'n fy Nuw Naf:
Yngwaith dy ddwylaw, fy Nuw Ior,
beunydd y gorfoeddaf.
5 Dy weithredoedd, ond mawrion ynt?
6 Dy helynt ni's gŵyr anghall:
Dy feddyliau o ddwfn iawn fryd,
hyn ni's gŵyr ynfyd ddeall.
7 Pan flodeuo yr enwir ddy
megis llyfieuny iraidd:
Pan fo ddrygweilch yn gref eu plaid;
Duw, yno rhaid eu diwraidd.
Y drwg flagur uchel yr ant,
a hwyl a sythiant heunydd:
8 Tithau, yr Arglywydd, yn ddigell,
wyt uchel yn dragwydd.

PSALM XCIII, XCIV, XCV.

9 O Arglywydd, wele d'elyniion,
 dy gafelion difethi :
 A holl weithredwyr traes a chan,
 yn ddinam a wasgerir.
10 Tydi a ddyrchebi fy nghorn,
 fel yr unicorn perffaith,
 Hefyd a gwerthfawr olew ir,
 ym taenellir i eilwaith.
11 Fy llygaid a welant hefyd,
 fy ngwynfyd o'm gelynion :
 A'm clustiau a glywant ar frys
 f'ewylls am ddrwg ddyon.
12 Y cyfion blodeua i'r nen,
 fel y halmwydden union :
 Cynnyddu yn iraidd y bydd,
 fel cedrwydd ym Libanon.
13 Y rhai a blannwyd yn nhŷ Dduw,
 yn goedwydd byw y tyfants
 Ac ynghynteddau ein Duw ni
 y rheini a flodeuant.
14 A dwyn eu ffrywth a wnat o faint,
 yn amser henaint etto:
 Tirion, iraidd, a phrofawdwy,
 a fyddant hwy yn hilio.
15 I ddangos nad traws, ac nad cam,
 yw f' Arglywydd a'm cadernyd:
 Ac nad oes ynddo na chamwedd,
 na dim anwedd hefyd.

PSALM XCIII.

TEYRNASU y mae yr Arglywydd,
 Mewn arderchowr gwedd gwisgodd:
 Ynwisgodd f' Arglywydd yn brydferth,
 a nerth yr ymhwregyfodd.
2 Fe a sircraodd fail y byd
 heb syfyl, yn ddiharch:
 Dy faingc croed a ddarparwyd;
 ti wyd er tragwyddoldeb.
3 Y llifeiriaint (fy Arglywydd) faint
 y llifeiriaint yn codi :
 Tyrfau a llif yn rhwigo'r llawr,
 a thonau mawr yn coethi,
4 Cadarn yw tonnau y mroedd,
 gan dyrfau dyfroedd lawer :
 Cadarnach yw yr Arglywydd maw
 yn nhyrâu yr uehelder.
5 Dy dystiolaethau ynti siwr iawn;
 sef cyfawn yw fancteiddrywedd :
A gweddu yn dy dŷ di fydd
 byth yn dragwydd, f' Arglywydd.

PSALM XCIV.

O Arglywydd Dduw, Duw mawr ei rym,
 Dialwr llym poh traha:
O Dduw y nerth, ti hijau'r tâl,
 a'r dial, ymddisgleiria.
2 Ymddyrrcha di, Farnwyd y byd,
 a thâl i gyd eù gob y byd,
 I'r heilchion a'r trahâs dod
 y tâl a fo dyladwy.
3 Pa hŷd (O Arglywydd) O pa hŷd,
 y chwardd gwyr byd drigionus?
4 Yr ymfalchiant ynteu drwg,
 gan sygwth amlwg ffrofus?
5 A'th bohl di, Arglywydd a faeddant,
 a chyftuddiant di, dreflaid :
6 Y weddw a'r dieuth a laddant,
 llifasant yr amddifad.
7 D'wedasant hyn heb gcsio cel,
 Ein gwaith ni wel yr Arglywydd :
 Ac ni ddeall Duw Iago hyn,
 i ni ni ddisgyn aifwydd.

8 Ym mysg y bobloedd difraw dôn,
 yfyrwch ddynion anghall:
 Chwithau vnyfydion, O pa bryd
 y rhwch eich bryd ar ddeall?
9 Hwn a wnaeth y gluit i bob byw,
 oni chlyw ef yn amlwg?
Ac oni wel hwnnw yn hawdd,
 a luniaidd i ni olwg?
10 Oni cheryddha hwnnw chwi,
 fy'n cospi pob cenhedlaeth?
Ac oni wyr hwnnw y fy'n
 dysgu i ddyn wybodaeth?
11 Gwyr yr Arglywydd feddylan dŷn
 mai gwagedd yd yn, diffaith :
12 Duw, dedwydd yw a goipech di,
 a'i fforddi yn dy gyfraith.
13 Yr hon a ddyig i ddyn warhâu,
 i fwrw dyddiau dihir,
 Tra foer yn darparu y clawdd,
 y fan y bawdd yr enwir.
14 Can's ein Ior ni ei bohl ni ad,
 2'i wir dreftâd ni wrthyd :
15 Ef at farn iawn a gadarnhâ
 a phob dŷn da a'i dilyd.
16 Pwy a gyfyd gyd a'm ymfi
 yn erbyn egnai trawfedd?
Pa rai a safant ar fy nhy
 yn erbyn illu anwiredd?
17 Oni bai fod Duw i mi'n borth,
 ac estyn cymmorth imi,
 Braidd fu na ddaethai imi y loes
 a roifai f' oes i dewi.
18 Pan fawn yn cywio, dan drymhâu,
 rhag bod i'm camrau lithro :
Fy Arglywydd, o'th drwgaredd drud,
 di a'm cynhelyd yno.
19 Pan fo ynof amlaf yn gwau,
 bob rhwy feddylan trymion :
Doe dy ddiddanwch di ar dro,
 i gyffuro fy nghalon.
20 A oes gyfeillach i ti Dduw,
 a maint yr annwylion,
 Hwn a lunia anwiredd maith
 yn lle y gyfraith union?
21 Y rhai sy'n ymdyrnu ynglyd,
 ar fryd dwyn oes y cyfion :
Ac ym eu cyngor yr ymwnâed
 i geisio gwaed y gwirion?
22 Ond yr unig Ior sydd er hyn,
 yn llwyr ymddifynn f' enaid :
Ef yw fy nerth o'm hol a'm blaen,
 a sylfaen fy ymddiriaid.
23 Efe a dâl i bob dŷn drwg
 yn amlwg am ei gamwedd :
Y maleitius tyn Duw o'r byd,
 am ei chwŷd o anwiredd.

PSALM XCV.

O DOWCH, a chanwn i'r Arglywydd,
 efe yw llwydd ein bywyd :
Ac ymlawenhawn yn er nerth,
 ef yw ein prydferth iechyd.
2 O down yn unfryd ger ei tron,
 a chalon 'bur ddiolchgar :
 Bryfawn at Dduw, dan lawenhau,
 a chanwn psalmau'n llafar.
3 Herwydd yr Arglywydd nef a llawr,
 y sy Dduw mawr yn ddiau;
 Tywyfog mawr yw ef mewn trin,
 a Brenhini'r holl dduaenron,
4 Efe biau'r holl ddaearangron,
 a'r dyfnder eigion danaw :

Uchelder

P S A L M X C V , X C V I , X C V I I , X C V I I I .

Uchelder hefyd, eithafoedd,
 mynyddoedd fydd yn eiddaw.
 5 Ef biâu'r moroedd uwch pob traeth,
 ac ef a'u gwnaeth i ruo:
 Ei ddywlaw ffurfafant yn wir
 y fychdir, ac sydd ynddo.
 6 Dowch, addolwn, cyd-ymgrymmwn,
 ac ymtoingwn iddaw:
 Ef yw ein Harglwydd unben Rhi,
 ef a'u gwnaeth ni â'i ddwylaw.
 7 Can's ef i ni y fydd Dduw da,
 a phobl ei borfa ydym:
 A'i ddefaid ym, os chwi a glyw
 ei air ef heddyw'n gylfym.
 8 Meddyliwch fod eich bai ar led;
 na fyddwch galed galon:
 Fel yn nydd prawf, mewn anial dir,
 lle' cofir bod ymryfon.
 9 Y lle temtiodd eich tadau fi,
 a'm profi i'm hadnabod:
 Faint ydoedd y gweithredoedd maw,
 yn ddiau cawfiant wybod.
 10 Dros ddeugain mlynedd â'r llin hon,
 trwy fawr ymryfon, d'wedais,
 Pobloedd ynt cyfeiliornus iawn,
 a'u calon yn llawn malais,
 Can's nid adwaenent y ffyrdd maw,
 onid amhlau eu tuchan:
 11 Wrthyni i'm llid y tyngais hyn,
 na ddelyn i'm gorphwysian.

P S A L M X C V I .

O Cenwch glod i'r Arglwydd mad,
 a moefwch ganiad newydd:
 Yr holl ddaear, daigewch fawd
 yr Arglwydd nefawl beunydd.
 2 Cenwch chwi glod i'r Arglwydd nef,
 a'i enw ef bendigwch,
 A'i iachawdwriaeth, trwy grefydd,
 o ddydd cyhoeddwwch.
 3 Datgenwch byth ei glod a'i rad
 yngwlâd y cenhedlaethoedd,
 A'i ryfeddodau ef ym mhlith
 pob amryw, amrith bobloedd.
 4 Can's ein Harglwydd ni fydd Dduw mawr,
 a rhagawr cammoladwy:
 Uwch yr holl dduwiau y mae ef
 yn Frenlini nef ofnadwy.
 5 Duwiau y bobl eulynod ynt;
 ni ellynt inwy nâ chyfngod:
 A'n Duw ni a wnaeth nef a llawr;
 fel dyna ragawr gormod.
 6 Can's mawr ydyw gogoniant nef,
 ac o'i flaen ef mae harddwch:
 Yn ei gyfsegr ef y mae nerth,
 a phrydferth yw'r hyfrydwch.
 7 Chwi dylwythau y bobloedd, trowch,
 yn llawn rhowch i'r Arglwydd,
 I'r Arglwydd rhowch ogoneedd fry,
 a nerth; a hynny'n ehrwydd.
 8 Rhowch ogoniant i'w epw ef,
 yr Arglwydd nef byth bythoedd:
 A bwyd offrwm iddo a rowch,
 a chwi dowch i'w gynteddoedd.
 9 Addolwch f' Arglwydd ger ei fron
 i'w gyfsegr, digon gweddol:
 A'r ddaear rhagddo, hŷd a lled,
 dychryned yn aruthrol.
 10 I'r holl genhedloedd d'wedwch hyn:
 Yr Arglwydd fy'n teyrnau:
 Nid ysgog y byd, fy'n ficer iawn;
 ef a wyr uniawn farn.

11 O llawenhaed nefolaidd do,
 i'r ddaear bo gorfoedd:
 Rhued y môr a'i donnau llawn,
 a'r pyfog fy' mewn ei annedd.
 12 A gorfoedd y maes glas,
 ei dŵf, a'i addas ffyniant:
 A phob pren gwyrdd fydd yn y coed,
 i'r Arglwydd rhod ogomiant.

13 Am ei ddyfod, am ei ddyfod:
 a'i farn fydd hynd iawnwedd:
 Barna yn gyfion yr holl fyd,
 a'r bobl, a'i gyd-wirionedd.

P S A L M X C V I I .

YR Arglwydd ydyw ein pen rhaith,
 bo perffaith y ddaearon:
 Ynyfeodd cedyn yr holl fyd,
 bont hwy i gyd yn llawn.
 2 Niwl a thywylwch s' i'w gylch ef,
 hyfrydwch nef gyfannedd:
 Iawnder a barn ydint yn sail
 ac adail maingc ei orsedd.
 3 Tân a o'i flaen ef, ac a lyfog
 ym mysg ei holl elynion:
 4 A'i felti yn fflamio trwy'r holl fyd,
 oedd olwg enbyd ddogon.
 5 O flaen Duw, fel y tawdd y cwyr,
 y bryniau'n llwyr a doddent:
 O flaen hwn (sef yr Arglwydd) ar
 y daear y diflannent.
 6 Yr holl nefoedd yn dra hyfrys
 a ddengys ei gyflawnedd:
 A'r holl genhedloedd a wleiant
 ei fawr ogoniant rhyfedd.
 7 Gw'radwydd i'r rhai a was'naethan,
 y delwau mân cerfiedig:
 Addolwch ef (nid eilun gau)
 holl dduwiau darfodeug,
 8 Dy farnedigaeth (O Dduw Ion)
 a glybu Seion ddedwydd:
 Marched Juda (o herwydd hyn)
 fy'ennyn o lawenydd,
 9 Can's ti (O Arglwydd) wyt, fy Naf,
 Oruchaf dros y ddaear:
 Rhagor yw'r dyrchafiad tau
 uwchlâw'r holl dduwiau twyllgar.
 10 Pob drygioni chwi a gasewch,
 caru a wnewch yr Arglwydd:
 Hwn fydd yn cadw oes ei faint,
 i'w dwyn o ddrygfaint afrwydd.
 11 Mewn daear yr egina'i had,
 goleuad daw i'r cyhon:
 Ar ol tritwch, fo dry y rhod
 i lân gydwybod union.
 12 Yn yr Arglwydd, o'r achoshon,
 chwi gyfion, llawenychwch:
 Trwy goffa ei tanfeiddrwydd ef,
 â llais hyd nef moliennwch.

P S A L M X C V I I I .

CENWCH i'r Arglwydd newydd gan;
 ei waith fu lân ryfeddod:
 Ei law ddehau a'i fraich a wnaeth
 in' iachawdwriaeth parod.
 2 Yr Arglwydd hyfrys in' y gwnaeth
 ei iachawdwriaeth gyhoedd:
 A'i gyflawnder ef yn dra hawdd
 datguddiawdd i'r cenhedloedd.
 3 Fe gofiodd ei drugaredd hir,
 a'i wir, i dŷ Ifrael:
 Fel y gweleodd terfynau'r hyd
 ei iechyd yn ddiymgel.

PSALM XCIII, XCIX, C, CI, CII.

4 **I'r Arglwydd** â chaniad llafar,
chwi, yr holl ddaear, cenwch:
A llafar lais, ac eglur lef,
fry hyd y nef y lleisiwch.

5 Cenwch i'r Arglwydd Dduw fel hyn,
â'r delyn, a chywirdant:
A chyd â'r delyn, lais a thôn,
rhoswch iddo gyfson foliant.

6 Canu yn llafar ac yn rhwydd,
o flaen yr Arglwydd Frenhin,
A cr y udgyrn, a'r chwthgyrn pres;
fel dyna gyffes ddibrin.

7 A rhued y môr mawr i gyd,
a'r byd, ac oll sydd yndydant:
Y llif-ddyfroedd, a'r mynyddoedd,
y mae yn addas iddynt.

8 Curant, canant, o flaen Duw eu,
y hwn sy'n barnu'r hyoeddant:
I'r byd y rhydd ei farn yn iawn,
ac yn uniawn i'r bobloedd.

PSALM XCIX.

YR Arglwydd Dduw yw ein Brenhin,
er maint yw trin y bobloedd:
Mae'n eistedd rhwng dau gerubyn;
fe grynn pob dacar-leoedd.

2 Canys Brenhin mawr ydyw'r Ion
yn Scion, o'i ddyrchaefl:
A uwchlaw pobloedd yr holl fyd,
y sydd o ryddyd uchel.

3 Cyd-foliant, o'r nef i'r llawr,
dy enw mawr rhagorol:
O nadwyr, sanftaidd, yw i'w drin.

4 Tithau (O Frenhin nerthol)
A geri farn, dargeri iawn,
yn gyfawn heb draws-igo:
A barnedigaeth bur ddiðiâst
a wanaethost di yn Iago.

5 Dyrhefwech yr Arglwydd ein Duw;
fel sanctaidd yw i'w fawredd:
Ymgrymmwch o flaen ei tol-draid,
felly parhaed ei fawledd.

6 Moes ac Aron, sanctaidd blaidd,
ym milith offuriaid gymrodd:
Samuel galwai ei enw ei;
yntau o'r nef atebodda.

7 Mewn colofn o niwl y bu wiw
gan Dduw lefaru wrthyn,
Tra fuant hwy yn cadw ei fodd,
a'r ddeddf a roddodd iddynt.

8 Gwrandewaif arnynt, dodlais fcd,
a'u harbed, gan ymattal:
Duw ein Nat, dy nawdd parod fu,
a hwythau'n haeddu diaid.

9 Dyrhefwech ein Duw Ior am hyn,
yn Seion fryn cysfograidd:
Ymgrymmwch iddo yn eich byw;
sei unig Dduw sydd sanctaidd.

PSALM C.

IR Arglwydd cenwch lafar glod,
a gwnewch ufudd-dod llawen fryd:
2 Dowch o flaen Duw â pheraidd dôn,
trigolion y ddaear i gyd.

3 Gwyhyddwch mai'r Arglwydd sydd D'uw,
a'n gwnaeth ni'n fyw fel hyn i fôd,
Nid ni'n hunain: ei bohl ym ni,
a defaid rhî' ei borsfa a'i nod.

4 Oewch i'w byrth â diolch brau;
yn ei gynteddau molwch of:
Bendithiwrh enw Duw hynod:
rhoswch iddo glod trwy lafar lef.

5 Can's da yw'r Arglwydd, Awdur hedd;
da ei drugaredd, a difyth:
Ai wirionedd i ni a roes,
o oes i oes, a bery byth.

PSALM CI.

DATGANAF drugaredd a barn,
i'r Arglwydd cadarn canaf:
2 Byddaf ddeallus mewn ffôrdd wych,
hyd oni ddelech attaf.

Arhodias yn fy nhî yn rhwydd,
a thrwy berfeithrwydd calon:
3 Pob peth drwg sydd genyf yn gas,
a childyn ddiras ddymon.

4 Calon gyndyn ynof si hydd;
drwg weithydd ni'n dnabhyddaf:
5 'Sglandwr dirgel, a'r balch uchel,
o'r achos ni oddefaf.

6 Ar ffyddloniaid mae 'ngolwg i;
fc lîn y rheini wrth i:
Ar hwn a rodio mewn ffôrdd dda,
hwu a was'naetha imi.

7 Ni chaiff aros o fewn fy nhî
un dîn ag fy dwyllodrus:
Yn fy ngolwg un dîn ni bydd
a lunio gelwydd trefnus.

8 Holl annuwolion fy ngwlad faith
yn fore ymaith torraf:
Fel na ddelont i ddnas Dduw,
y cyfryw a ddiwreiddiaf.

PSALM CII.

O Arglwydd, erglyw fy ngweddî,
a doed fy nghîrhyd attad:
2 Na chudd d'wyneb mewn ing tra fwys;
clyw, clyw, pan alwyf arnad.

3 Fy nyddiau aethant fel y mwg,
sef cynnddrwg y'm cytuddiwyd:
Fy efgyrn poethant achos hyn,
fel 'tewyn ar yr aelwyd.

4 Fy nghalon trawyd â chrynn ias,
ac fel y gwelit-glas gwywood:
Fel yr anglofais twyta 'inwyd;
dirnygywyd fi yn ormodd.

5 Glynodd fy efgyrn wrth fy nghroen,
gan faint fy mhoen a'm tuchan:
6 Fel un o'r anialwch, lle trig
y pelig, neu'r dyluan;

7 Neu fel un o adar y to,
a fai yn gwylio 'i twydy,
Yn rhodio'n unig ben y ty,
wyf anhy, ac anlyfryd.

8 Fy ngelynion, â thafad rhîdd,
hwy beunydd a'in difenwant:
A than ynfyd yn eu gwîn,
i'm herbyn y tyngafant.

9 Fel llwch a lludw yn fy mhlaf,
fu'r bara a fwysteais:
Yn un wedd yn y ddiolau faw
fy nagrau a gymmygais.

10 A hyn fu o'i'h ddigofaint di,
am it' fy nghodi unwaith:
Ac herwydd bod dy ddig yn fawr,
i'r llawr y'm teflait eilwaith.

11 Fy nyddiau troisant ar y rhod,
ac fel y cyfgod cilient:
Minnau a wywais, achos hyn,
fel y glasfawltyn methiant.

12 Ond tyd, Dduw, fy Arglwydd da,
a barhei yu drag'wyddol:
O oes i oes dy Enw a aeth
mewn coffadwriaeth grifol.

PSALM CII, CIII, CIV.

23 O cyfod bellach, trugarhâ,
 O Dduw, bydd dda wrth Seion :
 Mae'n fadws iiddi drugarhâu,
 fel dyma'r nodau'n union.
 24 Can's hoff iawn gan dy weision di
 ei meinï a'i magwyrau :
 Maeut yn tostwrth wrth ei llwch,
 a'i thrifftwch, a'i thrallodau.
 25 Yno yr holl genhedloedd byw
 yr Arglwydd Dduw a oiniant :
 A'r holl frenhinoedd trwy y byd
 a ront it' gyd-ogoniad.
 26 Pan adeilader Seion wîch,
 a hon yn ddrych i'r gwledydd :
 Pan wele gwtaith yr Arglwydd ne',
 y molir e'n dragwyd.
 27 Edrychodd hwn ar weddi'r gwael;
 rhœs iddyn gael eu harchau :
 28 'Sgrifenni hyn; a'r oes yn ol
 a gaiff ei ganmol yntau.
 29 Can's Duw edrychodd o'r nef fry
 ar ei gyslegr-dî, Seion :
 20 Clybu ei griddfan, er rhuddhau
 plant angau 'i garchorion.
 21 Fel y cyd-leisient hwy ar gân,
 yn Seion lân, ei foliant :
 Ac yng Nghaerfalem, yr un wedd,
 ei fawredd a'i ogoniad.
 22 Hyn fydd pan gafgo pawb ynghyd
 yn unfryd i'w foliannu :
 A'r holl deyrnafodd dont yngwydd
 yr Arglwydd, i'w was'naethu.
 23 Duw ar y ffordd lleiha'dd fy nerth,
 byrha'dd fy mhrwydferth ddyddiau :
 A mi'n dîsgwyl rhyddhâd ar gais,
 yna y d'wediain innau,
 24 O Dduw, na thor fy oes yn frau
 ynganhŷ dyddiau f' oedran :
 Dy flynyddoedd di fydd eriôed,
 o oed i oed y hyddan'.
 25 Di yn y dechreua dodaift fail
 odd' ifod adai daear :
 A chwmpaswybren uwch ein llaw
 yw gwaith ddyllaw hawddgar,
 26 Darfyydant hwy, parhœi di byth,
 Treuliant fel llyth drwsiadau :
 27 Troi hwynt fel gwïg, llygru a wnant;
 felly newidiant hwythau.
 Tithau, Arglwydd, yr un wyt ti,
 a'th flyddau ni ddarfyddant :
 28 Holl blant dy weision ger dy fron,
 a'u hwyriion, a breswyliant.

PSALM CIII.

F Ynaiad, mawl Sanct Duw yr Ion,
 a chwbl o'm heigion ynof :
 2 Fy enaid, n'ad fawl l'Arglwydd nef,
 na'i ddoniau ef, yn anghof.
 3 Yr hwn fy'n maddeu dy holl ddrwg,
 yr hwn a' th ddwg o'th lefigedd :
 4 Yr hwn a weryd d' oes yn llon,
 drwy goron o'i drugaredd.
 5 Hwn a ddiwalla d' enau di
 a'i lawn ddaioni pybyr.
 Trwy adnewyddu it' dy nerth
 mor brydferth a'r hen eryr.
 6 Yr ion cyfawnder, barn a wnai
 i'r rhai fydd orthrymmedig :
 7 Dangos a wnaeth ei brif ffyrdd hen
 i Ffœfen yn nodedig ;
 Ac i Israël ei holl ddawn.
 8 Duw, llawn yw o drugaredd ;

Hwyr yw ei lid, parod ei rad :
 fel dyna gariad rhystedd.
 9 Nid ymryfon ef a ni byth;
 nid beunydd chwîth digofaint ;
 10 Nid yn o ein drygau y gwnai
 a ni; ni'n cospat cymmaint.
 11 Cyhyd ag yw'r fwrfaen fawr
 oddiar y llawr o uchder :
 Cymaint, i'r rhai a'i hofnant ef,
 fydd nawdd Duw nef bob amser.
 12 Os bell yw'r dyrwain oieu hin
 oddiwrth orllewin faciud :
 Cyn bellent ein holl bechod llym
 oddiwrthym ef a'i symmud.
 13 Ac fel y bydd nawdd, ferch, a chwant,
 tad da i'w blant naturiol :
 Felly cawn ferch ein Tad o'r nef,
 os ofwn ef yn duwiol.
 14 Efe a'n hedwyn ni yn llwyd;
 fe wyr mai llwch yw'n defnydd :
 15 Oes dŷn fel gwellt-glas sy'n teghau,
 neu foddau maefydd.
 16 Yr hwn, cyn gynted ag y dêl
 y gwînt a'i awel drosodd,
 A chwythir ymaith felly o'i le,
 na wyydys p' le y tyfodd.
 17 Ond graflawn drugaredd a fydd
 yn lân dragwydd feddiant,
 Oes i oes, heb drangc, heb drai,
 gan Dduw i'r rhai a'i hofnant.
 18 A'i gyflawnnder i blant y plant
 a gadwant ei gyfammod :
 O chofant ei orchymynion ef,
 mae teyrnas nef yn barod.
 19 Yno mae ei orleddfa ef,
 sef yn y nef tragwyddol :
 A llywio y mae ef bob peth
 drwy ei frenhini'eth nefol.
 20 Bendithiwr chwi yr Arglwydd Ion,
 angylion, a'i holl gedyrn :
 Ei lân orchymynion ef a wnewch,
 a'i lais gwrandewch yn drachwyrn.
 21 Bendithiwr chwi yr Arglwydd Ner,
 ei luodd tyner tirion :
 Ei 'wyllys gwnewch, canlynwch wir,
 chwylwr ei gywir weision.
 22 Bendithiwr chwi yr Arglwydd nef,
 ei hell waith ef sy hylwydd :
 Ym mhob man oll o'i drefn a'i hawl,
 O' enaid, mawl di'r Arglwydd.

PSALM CIV.

F Ynaiad, mola'r Arglwydd Dduw,
 O' f' Arglwydd, Dduw y mawredd.
 Mawr wyt, gogoniant a gai di ;
 ymwiagi ag anrhyydedd.
 2 Megis ei ddillad, y gwïg fo
 am dano y goleuad :
 Rhudd y e'i gylch yr wybâr dàn,
 yn llydan, fel llen waftad.
 3 Ar ddeifr rhoes fail ei 'frefyll cau;
 gwnaeth y cymmlau iddo
 Yn drwn olwynog : mae ei hynt
 uwch esgyll gwînt yn rhodio.
 4 Gwnaeth bob chwythad iddo'n gennad,
 gogonegd y ffurfaen :
 A'i weinidogion o ffiam dàn
 a wibian 'rhîd yr wybren.
 5 Cref y rhoes fail y ddaear grop,
 fel na syfl hon oddiyno :
 Yr hon a bery, fel y rhoes,
 o oes i oes heb figlo.

PSALM CIV, CV.

6 Tydi (Dduw) a ddilledaist hon
 à'r eigion yn fantellau:
Ac oni bai dy ddeheu-law,
 a'i'r deifr uwchlaw y bryniau.

7 Gan dy gerydd maent hwy yn ffo,
 fel pan y synio taran:
 Trwy fraw a brys ar hýd y ddol
 y deifr i'w hol a lithran.

8 Weithiau y codai'r deifr yn frys;
 weithiau fel glyn pannylent,
Lle' trefnai stiddyn hanwl cau;
 ac weithiau y gorphwyfent.

9 Gofodaist derfyn lle'r arhont,
 ac fel nad elont drosto:
Ac na ddelont hwy fyth ar lawr
 y ddaear fawr, i'w chuddio.

10 Rhoes Duw ffynnon i bob afon,
 a phawb a yfant beunydd:
Arhed y ffrydau'r hýd y glyn,
 a rhwng pob brýn a'i glydd.

11 Yfant yno 'niseiliaid maes,
 a synod myng-lacs gwyltiant,
Heb ymadael à llawr y nant,
 hyd onid yfant ddigon.

12 Ac adar awyr dont ger llaw,
 i leisiau rhwng y coed ydd:
Yn canu 'fawr o bren i bren,
 cethlyddiaeth lawen ufudd.

13 Dwfr ar ffynyddoedd lle ni ddaw,
 fo wlych à gwlaw oddiarno:
A'r gwaitiad dir efe a'i gwlych,
 bob grwn a rhych i ffrwytho.

14 Parod i'r gwellt dyfu, wrth raid
 aniseiliaid: a'r llyniau,
Erd a i ddyn; lle rhoes, o'r llawr,
 ymborthiant mawr rhag angau.

15 A gwin llawena calon dýn,
 ag olew tywyn wyneb:
A bara nerthir calon gwr,
 mewn cyflwr digonoldeb.

16 Preniau'r Arglywydd, o fugh llawn,
 o'i unig ddawn y tyfan:
Sef y coed cedrwydd brigog mawr,
 a roes e'n llawr y Liban.

17 Lle mae nythod yr adar mân
 mewn premiau gian cadeirn:
Lle, mewn ffynnidiwyd gwyfwyd glyn,
 mae tý'r aderyn trwyniñ.

18 Y mynydd uchel, a'r bryn glas,
 yw llwybr y danas fychod:
Ogof y doligraig a wna les,
 yn lloches i'r cwningod.

19 Fe roes i'r lleuad ei chwrs clau,
 a'i chyfnewidau hefyd:
A'r haul o amgylch y byd erwn,
 fo edwyn hwn ei fachlud.

20 Tywyllwch nos a roed, wrth raid,
 i swyffiliad y coed ydd:
Lle llewod rhwani am gael maeth
 gan Dduw, yiglyfaeth beunydd.

22 A chwedi cael yr ymborth hyn,
 pan ddîl haul attyn' unwaith,
 Ymgasglant hwy i syn'd i'w ffau,
 ac i'w llochesau, eilwaith.

23 Y pryd hwn cylyd dýn i'w waith,
 ac i'w orchiwyliaeth efigud:
Ac felly'r erys dan yr hwy,
 lle' caiff yn hwy ei fywyd.

24 O Dduw, mor rhymedd yw dy waith,
 o'r synwyr berfath dradoeth!
Gwnaetholl bob peth à doethder dawn,
 a'r tir fy lawn o'r gyfoeth.

25 A'r llydan for, y deifr ym mysg,
 lle aml yw pyg yn lleemain:
Lle yr ymlugant, ris yr ôd,
 bwythfliod mawr a bychain.

26 Yno yr à y llongau glân
 dros y Lefiathan heibio,
Yr hwn 'o fodaist di, lle mae
 yn cael ei chwarae ynddo.

27 Hwylt oll ddfgwyliant, yn ei bryd,
 am gael oddiwrthyd borthiant:
I gael dy rodd, ymgasglu'nghyd,
 ie am eu bywyd, byddant.

28 Duw, pan agorech di dy law,
 oddiyno daw daioni:
Pob anifail, a phob rhyw beth,
 a ddaw yn ddifeth ini.

29 Pan guddiech di dy wyneb-pryd,
 a chaiglu d'yspryd allan:
Crynant, trengant, ac ant i'w llwch,
 mewn diwedd trwch a thrwitan.

30 Duw, pan olynguech di dy rad,
 fel rhoedi cread newydd,
Ymodd hyn wyneb yr holl dir
 a adnewyddir beunydd.

31 Yr Arglywydd gogoneiddus sydd,
 trwy fawr lawenydd, bythoedd:
Yr Arglywydd yn ddiua a fodd
 orfoledd yn y nefoedd.

32 Ein Duw or nef a edrych ar
 y ddaear, a hi 'ddychryn:
Os cyffwrdd à'r mynyddoedd draw,
 y mwâg a ddaw o honyn'.

33 Canaf i'r Arglywydd yn fy myw:
 canaf i'm Duw tra fyddwyf:
34 Mi a lawenâb yn fy Ion;
 bydd ffyddlon hyn a wnelwyf.

35 Y trawfion oll o'r tir ant hwy;
 ni bydd mwyl annwylion:
Fy enaid, mola Dduw yr rhodd:
 mae hyn wrth fodd fy nghalon.

PSALM CV.

CLLODFORED pawb yr Arglywydd nef,
 ar ei enw ef y gelwch:
A'i weithredoedd ym myig pobloedd
 yn gyhoedd a fynegwch.

2 Cenwch ci gerdd, clodforwch hwn,
 a'i diddin ryfeddodau:

3 Y rhai a gais ei enw (y Sant)
 llawenant à'u calonau.

4 Ceisiwch yr Arglywydd, a'i nerth mawr,
 a'i fodd bob awr yn rhadlon:

5 Cofiwch ei holl ryfeddodau,
 a barn ei enau cyhon.

6 O had Abraham ei was fo,
 o feibion Iago'r ethol:

7 Ef yw ein Duw, a'i farn ef aeth
 dros holl diriogaeth yfodol.

8 Bob amser cofiodd ei gyngrair,
 ei a'i'r, a'i rwym ammodau,

9 Ag Abraham, Ifac, a'i hil,
 a mil o genhedaethau.

10 Fe rocs i Iago-hyn yn ddeddf,
 ac yn rwym greddf dragwyddol:

11 Ac i Ifraël y rhoes lân
 wlad Canan yn gartrefol.

12 Pan oedd yn anaml-iawn eu plaid,
 a hwy'n ddfieithriaid ynddi:

13 Ac yn rhodio o'r wlad i'r llall,
 yn dioddef gwall a chyni:

14 Lleiteirodd iddynt gam yn dynn:
 o'r achos hyn, brenhinoedd

P S A L M C V , C V I .

A geryddodd ef yn eu plaid;
a'i air a gaid yn gyhoedd.

15 A'm Henneiniog na chyffyrrddwch;
na ddrygwch fy mhrophwyd;

16 Galwodd am newyn ar y tir;
yn wir dug fara ' honi.

17 O flaen ei blant y gyrrodd ras;
Joseph yn was a werthwyd:

18 Ar ei draed a rhoed haearn tyn;
mewn gefyn y cyfuddiwyd.

19 Gwifgodd y gefyn hyd y bysw,
nes i air Duw amferu:

Trwy Dduw y casas ef ryddhâd,
a phrifid, er ei garu.

20 Yna 'gyrrwyd i'w gyrcha fo
ger bron hen Pharo frenhin:

Ac y gollyngwyd ef ar led
o'i gam gaethiwyd ryflin.

21 O hyn ei ofod ef a wnaeth
yn bennaeath ar ei deulu,

Ac o'i holl gyfoeth ef, a'i wladd,
ys da farhâd oedd hyunny;

22 I ddyfgu rheolwyr ei lys
ei 'wyllys a'i foddiondeb:

I fforddio henuriaid y wladd
yn waftad mewn doethineb.

23 Daeth Israël i'r Aipht, tir Cam,
lle'r oedd yn ddinam efron:

24 Lle llwyddodd Duw hil Iago bach
yn amlach nâu' u cefcione.

25 Yna y troes eu calon gau
i lwyv gasau ei bobloedd:

I'w weision ei i wneuthur (twyl),
a llid (nid ammhwyl) ydoedd.

26 Duw gyrrodd Foesen, ei was hen,
ac Aron llén dewifol,

27 Yn nhir Ham i arwyddocâu
ei nerth a'i wyrthiaw nodol.

28 Rhoes Duw dywyllwch dros y wladd;
er hyn ni chad uffud-dod:

29 Eu dyfroedd oll a droed yn waed,
a lladd a wnaed eu pyfod.

30 I'w tir rhoes lyffaint, heidian hyll
yn 'tfeffyl eu brenhinoedd:

31 Daeth ar ei air wybed, a llau,
yn holl fannau eu tiroedd.

32 Fo lwlwiodd arnynt genlyfsg mân,
a'u tir â thân a yfodd:

33 Eu gwinwydd a'u fflifywydd mad,
a choed y wladd, a ddrylliodd.

34 Ceiliog rhedyn, a lindys brwd,
yn difa cwud eu meufydd:

35 Uwchlawn rhif, trwy yd, gwellt, a gwair;
a hyn trwy air Duw Ddofydd.

36 Cyntaf-anedig pob pen llwyth,
a'u blaenffwyth, ef, a d'rawodd,
Yn mhob man trwy holl dir ei gas;
a'i bobl o'r ras a gadwodd:

37 Ac a'u dug hwyn yn rhŷdd mewn hedd,
o'w inedd eu cefcione,
Heb fod o honyni un yn wan,
ag aur ac arian ddigon.

38 A llawen fu gan wyr y wladd,
o'r Aipht pan gad eu gwared;
Daeth arnynt arwyd y llaw gref
a ddaeth o' net i wared.

39 Rhoes Duw y dydd gwmwliuwrh ben;
fel mantell wen y toodd:

A'r nos goleuodd hwyn y thân;
fal hyn yn lân y t'wyfodd.

40 Fe a roes iddynt, ar y gair,
gig feb-lair i'w boddioni;

A bara, o'i orchymyn ef,
a ddaeth o'r nef i'w porthi.

41 Holltodd y graig, daeth deiffr yn llif,
fel pe baent brif afonydd:

Cerddodd yr hedif, a rhoes wlych
'rhŷd pob lle sych o'r gwledydd.

42 Coifo a wnaeth ei air a'i ras
i Abram ei was ffyddlon:

43 A thwyr fawr nerth, yn rhŷdd o gaeth
y gwnaeth ei ddewlilion.

44 Tir y cenhedloedd iddynt rhoes,
a'u llafur troes i'w mceddiant:

45 Er cadw ei air a'i gyfraith ef,
rhwch hyd y nef ei foliant.

P S A L M C V I .

M OLWCH yr Arglwydd, can's da yw;
moliennwch Dduw y Llywydd:

Oblegid ei drugaredd fry
a bery yn dragwydd.

2 'R Arglwydd pwyl all draethu ei nerth,
a'i holl dirion-fenth foliant?

3 A wnel gyflawnwr gwyn eu byd,
ei farn i gyd a gadwant.

4 O Arglwydd, cofia fi dy was,
yn ol dy ras i'r eiddod:

Ymwl â mi, i'm cyfudd caeth,
â'r iachawdwriaeth barod.

5 Fel y gwelwyf, ac y chwarddwyl,
wych urddas d'etifeddiaeth:

Ac y cyd-ganwyf fawl un dôn
â'r ddewlifolion odaeth.

6 Pechod, camwedd, ac annoethedd,
a wnaethom gyd â'n tadau:

Ef a gaed arnom ormod gwali,
heb ddeall dy fawr wyrthiaw.

7 Yngwlâd yr Aipht, wrth y mor coch,
yn gyndyn groch anufudd:

Heb goho amled fu dy ras,
haeddafom atgas gerydd.

8 Etto, er mwyn ei enw ei hun,
Duw Cun a ddaeth i'n gwared:

I beri i'r byd gydnabod hyn,
ei fod et cyn gadarned.

9 Y ddfnfor coch, a'i ddyfrllyd wlych,
a wnaeth e'n sych â'i gerydd:

Trwy ddyfnder eigion aent ar frys,
fel myn'd 'rhŷd yfyls mynydd.

10 Fel hyn y dug hwyntr wrwedd draw
o ddyllwyl eu cefcione:

Ac y tywyfodd ef ei blant
o feddiant eu gelymion.

11 Y deiffr a guddiodd yr Aipht ryw;
nid oedd un byw heb foddi:

12 Yna y credent i'w air ef,
a'i gerdd hyd nef ac'n wiñgi.

13 Er hyn, dros gof, mewn amser byr,
y rhœnt ei bybyr wyrthiaw:

Hch. sefyll wrth air un Duw Ior,
na'ngyngor, na'i ammodau.

14 Ond cododd arnynt chwant a blys
yn nyrys yr anialwch:

Gan demtio Duw a rheibus fol
ynganol y diffeithwch.

15 Rhoes iddynt lenwi eu holl flys;
rhœs annhyccianus aifwydd:

16 Lle digint Fofes wrth ei chwant,
ac Aron, fan yr Arglwydd.

17 Egorai'r ddaear yu y man,
a llyngcái Ddathan ddybryd:

Ac a gynhuliodd i'r un llam
holl lu Abiram hefyd,

PSALM CVI, CVII.

18 Ac yn ei ddig ennynodd tân
yn fuan yn eu canol :
Llosgi y rhain, eu terfyn fu,
yn ulw, y llu annuwiol.

19 Yn Horeb gwnaethant dawdd-lun llo,
ac iddo ymgrymماfانت :

20 I lun llo, a borai wellt mân,
y troi'an' eu gogoniant.

21 Anghofient wyrthiaw Duw ar hynt,
(a f' afa gynt Achubwr)

22 Yngwlâd yr Aiph, mor coch, tir Ham)
heb feddwl am eu cyflwr.

23 D'wedodd mai eu difetha 'wnai,
ou'i bai i'w was Moeien,
Trwy sefyll o'i flaen i'w lid maith,
droi ymaith eu drwg ddilen.

24 Dirmgent hwy y prydferth dir,
ac i'w air gwir ni chredent :

25 Ond yn eu pebilly grwgach tro,
ac arno ni wrandawent.

26 Yno dyrchafodd Duw ei law,
i'w cwym paw trwy' anialwci :

27 'Rhŷd tiroedd, a phobloedd anghû,
i'w tanu mewn di'fyrweli.

28 A Baal-peor aent ynghyd,
ymgredu i gyd ag efo :
Ebyrth y meirwon a fwyti'ent,
a Duw a roddeint heibio.

29 Fal hyn digiafant f' Arglywydd Dduw
a chyfryw goeg ddych' mygion :
Yntau anfonodd bla'n eu myig;
fal dyna derfysig greulon.

30 Yna cyfododd Phinehes,
mewn cyflawn wres i ddial :
A phan roes hwn ei fara yn dda,
Duw ar y bla roes attal.

31 A chyfrifwyd y weithred hon
yn weithred gyfion ynddol,
O oes i oes (trwy air Duw Ior)
pan ddelai son am dano.

32 Ac wrth lân dwfr Meriba gynt,
yno cyfröynt gynnen :
Lle digient Dduw a'u crasder fraeth;
am hyn bu'n waeth i Foeien.

33 Wrth gythrudo y'fryd y fant,
hwy a barafant héfyd
I'w enau draethlu gair arfai,
a'r na pherthynai i dd'wedyd.

34 Ni ladden chwaith bobloedd y wlad,
wrth archiad Duw y lluoedd :

35 Ond ymgymmyfug a hwynt yn gu,
a dyfug eu gweithredoedd.

36 Gwafanaethu eu duwiau gau,
y rhai fu faglau iddyn :

37 Abertiu eu plant, yn fab, yn ferch,
o ferch i'r cythraul eilun.

38 A thywalltafant wirion waed
dan drâed gau-dduwiau Canan;
Y tir (wrth abertiu eu plant)
a gwaed llygrafant weithan.

39 Felly o'u gweithredoedd eu hun
yn un ymhalogafant :
Putteinio wrth eu cwrs a'u bryd,
ac felly cyd-lygrafant.

40 Wrhynt ennynodd Duw mewn dig,
am hyn, a fwyng gyfiro :
Cas a ffiadd felly yr aeth
ei etifeddiaeth gando.

41 O'r achos hwn eu rhoddi a wnaeth
dan bob cei hedlaeth gyndyn,
Mewn cyflwr cas y etiron blaed,
a'u cas yn feithraid aryn'.

42 Eu gelynion aethant yn ffroom,
a'u llaw fu drom a fwyng :
Felly y daroifingwyd hwy,
a mwyfwy fu eu ditmug.

43 Mynych-waredodd Duw ei blant,
hwy a'i digiafant yntau
A'u cwrs eu hun : daeth cyfudd hir
am waith eu henwir felau.

44 Pan welai aryn' ing na thrais,
fo glywai lais eu gweddi :

45 Gan gofio'i air, rhoi nawdd a wnaeth,
o'i helacth fawr ddaioni.

46 A throi yn drugorog a wnaeth
y gwyr yn gaeth a'u cludynt :
Y rhai y b'afai 'n fawr eu cas,
cael mwy cymmwynas ganddynt.

47 Achub ninnau o blith y rhain,
i arwain d'enw hyglod :
O Arglywydd Dduw, cymhell ni'n gu
i orfodd ynod.

48 Duw Itrâel bendigaid fydd,
yn dragwydd Jehofo :
A d'weddei y holl bobl, Amen;
molwch Dduw llén Gorucha'.

PSALM CVII.

MOLWCH yr Arglywydd, can's dâ yw;
molienwch Dduw ein Llywydd :
Oblegid ei drugaredd frys
a beryn y dragwydd.

2 Y gwaredigion canent fawl
i Dduw, gerdd nodawl gyffon :
Y fawl' achubwyd, caned hyn,
o law y gelyn creulon.

3 A gasglodd bedwar-ban byd,
dowch chwi i gyd ganeuau :
O dir y dyrain dowch mewn hedd,
gorllewin, gogledd, deau.

4 Trwy yr anialwch, wyrdrasw hynt,
y b'afant gynt yn crwydro
Allan o'r ffordd : heb dref na llan,
lle caent hwy fan i drigo.

5 Trwy newyn, syched, bu'r daith hon,
a'u calon ar lewygu :
6 Ar Dduw y galwent y pryd hyn,
pan oeddyn' ymron trengu.
Yna eu gwared hwynt a wnaeth
o'u holl orthrymgaeith foddion :

7 'Rhŷd yr iawn ffordd fe'u dug mewn hedd
i dref gyfannedd dirion,

8 Addefant hwythau ger ei fron
ei fwyntion dragareddau :
Ac er plant dynion fel y gwnaeth
yn helacth ryfeddogau.

9 Ddiwallu honaw einioedd dŷn
rhag newyn, a rhag syched :
Ac o'i fawr ras eu caldw i gyd,
pan oedd y byd yn galed;

10 Y rhai mewn tywyllwch a drig,
ynglyf god llewys angau,
Yn rhwym mewn nychedd, ac mewn bâr,
a heyrin ar eu fodlau.

11 A hyn ar herwydd iddynt fod
mewn anufudd-dod eithaf,
A llwyr ddiflwyd gair Duw Ior,
a chyngor y Goruchaf.

12 A thrymder calon cwmpwyd hwy ;
nid oedd neb mwy a'u cododd :

13 Ar Dduw mewn ing y rhoisan' lef ;
ac yntef a'u gwaredodd.

14 Ef a'u gwaredodd hwynt o'u drwg,
lef o dywyllwg caethglud :

O gysgod

P S A L M C V I I , C V I I I , C I X .

O gyf god angau eu rhyddhâu,
a thorn' rhwymau hefyd.

15 Addefant hwythau ger ei fron
ei fwynion drugareddau:
Ac i blant dynion fel y gwnaeth
yn helaeth ryfeddodau.

16 Can's y pyrth pres torrodd yn chwyrn,
a'r barau heiyrn hefyd:
17 Am eu bai a'u camwedd, yn wir,
y poenir y rhai ynsyf.

18 A hwynt yn 'laru ar bob bwyd,
fe'u dygwyd ar byth angau.

19 **Ar** Dduw mewn ing y rhoisant lef;
achubodd ef hwynt hwythau:

20 Gan yrur ei air i'w hiachhâu,
ac i'w rhyddhâu yn fuan:
A bwnt à i' air tynnau a wnaeth
o'u methedigaeth allan.

21 Addefant hwythau ger ei fron
ei fwynion drugareddau:
Ac i blant dynion fel y gwnaeth
yn helaeth ryfeddodau.

22 Aberthant hefyd aberth mawl
i'w ongoneddawl Fawredd:
A mynegant ei waith a'i wyrth,
yn ei byrth, mewn gorfoedd.

23 Y rhai ant mewn llongau i'r don,
a'u taith uwch mawrion ddyfreodd,
24 A welant ryfeddodau'r Ion,
a hyn mewn eigion moroedd.

25 A'i air cyffro dymheilcoedd gwŷnt,
y rhain a godynt donnau

26 Hyd awyr fry, hyd eigion llawr,
ac oin bob awr rhag angau.

27 Gan ysgwyd a phendroi, fel hyn,
dull meddywŷn, synnai arnynt:

28 **Ar** Dduw mewn ing y rhoisant lef;
daeth ef a chymorth iddynt.

29 Gwnaeth è'r ylorm yn dawel dêg,
a'r tonnau'n osleg gwaifad:

30 Yn llawen ddistaw doen i'r lan,
i'r man y bai 'dymuniad.

31 Cyffesent hwythan ger ei fron
ei fwynion drugareddau:
Ac i blant dynion fel y gwnaeth
yn helaeth ryfeddodau.

32 Holl gynnulcieid a ei bobl ef
clod Duw hyd nef dyrchafant:
Holl gistedd ydd pennathaith hen
yr llawen a'i molianuant.

33 Y ffrydau'n ddyrys dir a wnai;
fe sychai ddwfr lle tardo:

34 A thir ffirwythlawn a wnai'n ddi-ffirwyth,
lle trig drwg dylwyth ynddo.

35 Troes yr anialwch yn llyn glas,
a'r tir cras yn ffynhonnnydd:

36 Lle gwai ef drigfan i'r gwael ddyn,
i dorri 'newyn unenyd.

37 Lle'yr hausant faesydd glân,
a llawer gwinllan dyner;
Y rhai a roddant lawnder ffirwyth,
a chnydwyth, yn ei amfer.

38 Can's cynnyddafant hwy gan wlih
grafol fendifth un Duw. Cun:
A u hanifeiliaid, hyfp a blith,
rhoea yn un fendifth arnynt.

39 Daeth caethder gwedi hyn i gyd,
a drygyd, er eu goftwng:
Gadawodd eu gorthrymuu a'u plau,
cawfiant flinderau teilwng.

40 Eu dirmyg ar y beilchion troes,
ac ef a'u rhoea i grwydro.

Mewn d'ryfini, heb lun ffordd i'w chael,
lle buant wael eu gortho.

41 Yna rhoes y tlawd i well fri;
dug o'r trueni allan:
Gan lwyddo i deulu, a'i holl blaidd,
fel gefaid wrth y gorlan.

42 Y rhai cyfawn a welant hyn,
a chanddyn' bydd yn hyfryd:
A'enwir ceuir ei ddwy en
ar ei gynfigen fawlyd.

43 Pa rai sy ddoeith i ddeall hyn,
fe roddir iddyn' wybod
Faint yw daioni f' Arglywydd pu':
wrth hyn y can' gydnabod.

P S A L M C V I I I .

P AROD yw fy nghalon (O Dduw)
O parod yw fy nghalon:
Canaf it' a datganaf wawd
o fawl fy nhafawd ffyddlon.

2 Daffro dafod, a daffro dant,
a chan ogont aeuonydd:
Y nabl a'r delyn yn gytun;
deffrôf fy hun ar las-ddydd.)

3 Mawl iti, f' Arglywydd, pan ddeffrôf,
a rof ym myf y bobloedd:
Ac chlodfori dy enw a wnaef
lle amlaf y cenhedloedd.

4 Can's cyrhaeddyd y mae dy ras
hyd yn neyrras y nefoedd:
A' thwirionedd di hyd at len
yr wybren, a'i therfynoedd.

5 Ymddyrrcha, Dduw, y nef uwchlaw,
oddiynto daw d'arwyddion:
Ac bydded dy ogont a'r
y daear a'i thrigolion.

6 Fal y gwaeder, trwy hon hwy,
bob rhai o'r anwyl ddyfynion:
Ac achub hwynt à'r law ddehau,
a gwrandro finnau'n ffyddlon.

7 Yn ei fanfetiddwydd d'wedodd Duw,
Llawen yw fy nghyfammod:
Mi rannaf Sichem' rhŷd y glyn;
meluraf ddyffryn Succod.

8 Myfi biau y ddwy dreftâd,
set Gilead a Manasse:
Ac Ephraim yw nerth fy mhen,
a Judah wen f' anneddle.

9 Ym Moab ymolchi a wnaef;
dros Edom taflaf f' eigid:
Ac chwarddedd Palestina gaeth;
ei chwertyn aeth yn rhybrid.

10 Duw, pwy a'm dwg i'r ddinas gref?
pwy a'm dwg i dref Edom?

11 Er it' ein gwrtiod, pwy ond ti,
O Dduw, a'mleddi drofom?

12 O unig Dduw, bydd in' yn borth;
mae'n ofer cymorth undyn:

13 Yn Nuw y gwnawn wrolaeth fawr;
fe fathr i lawr ein gelyn.

P S A L M C I X .

O Dduw, fy moliant i na thau:
2 Can's genau'r annwylion,
A'u tafad twylgar, a'u safn rhwth,
arnaf fy'n bygwith digon.

3 Daethant i'm cyrch à geiriau cas;
rhoeni ddfilas fen anynad:

4 Fal hyn ym' talent ddrwg dros dda;

5 A chas a ga' am gariad.

PSALM CIX, CX, CXI.

Ac fel yr oedd ynt hwy fallyn
 i'm herbyn wedi codi,
Fy wnech attad ti a drois,
 ac arnat rhois fy ngwedi.
Bid Satan ar ei ddehau-law,
 i'r fwydd y daw yn barod:
A phan roer harn, yn euog boed,
 a'i weddi troed yn bechod.
Bo 'i oes yn fær, ac yn ddilwydd,
 a'i fwydd arall i'w chym'r yd:
Poed yn amddifaid y bo 'i blant,
 a'i weddw yn fethiant hefyd,
A boed ei blant yn crwydro byd,
 i gym'r yd mân gardoed:
A cheifiant hyn 'rhŷd dyrys dir,
 lle byddo hir eu prydian.
Yu rhwyd y ceisfad ei ddâd syrth,
 a'i lafur pyrth ddeithriad:
Na ddêl iddo nawdd am ei fai,
 na chwaith i'w rai amddifaid.
Doed distryw dial ar ei hil,
 a'i eppil a ddileir:
Am bechodaui ei dad a'i fam,
 y caiff ei lam ryw amser.
A bydded hyn i gyd ger brôn
 yr Arglwydd gyfion farnwr,
 Yr hwn a'i torro, fel na bo
 mwy goho ei anghywir.
Eriod ni cheifiodd wneuthur hedd,
 na thrugaredd i ddyn gwan:
Ond erlid tlawd a'r ifel radd,
 a cheisio lladd y truan.
Hoffodd felldith, a hi a ddaeth;
 ac fel y gwnaeth, bid iddo:
Cafodd fendiff, ac ni chaf,
 ond pell yr ai oddiwrtho.
Gwifodd felldith fel dilad gŵr,
 a daw fel dw'r i'w galon:
 Fel olew doed i'w efgyrn fo,
 hyd oni chaffo ddigon.
Ar felldith bid i'w gylch yn dynn,
 fel yn ddilledyn iddo:
Ai gwisgo hi bid iddo'n dasg,
 fel gwregys gwaig am dano.
A hyn gan Dduw a gaf yn dâl,
 i'r gelyn gwammal enbyd,
A dd'wet o neu a wnelo gam,
 neu niweid am fy mywod.
Dithau, Dduw, er mwyn d'enw, gwna;
 herwydd mai da d'ymwared:
Gwna dy drugaredd a myfi,
 a bryia di i'm gwared.
O herwydd tlawd a rheidus wylf,
 a dirfawr glwyf i'm calon:
Symudiaid cyigod a fai'n ffo.
 byn er na welo dynion.
Mor anfedylog yw fy 'stad
 a'r mudiad gellog rhedyn:
Fy nghnawd yn gul, fy ngliniaw'n wan
 a ffigan', o dra newyn.
Gwarth wylf i'm cas yn fy ngwael dôr ych;
 a hwnt, wrth edrych arnaf,
Am diyllyrent, dan dros tro,
 a than bensiglo attaf.
Cymorth di fi, Arglwydd fy Nuw;
 cadw fi'n fyw â' th nodded:
Fel y gwyper mai gwaith dy law
 yw'n lles a ddaw i'm gwared,
Mellidhiant, nac eirachant hwy;
 dod fendiff fwy i minnau:
Bid gwarth i'm gwrlhwynedwyr cas,
 gorfoedd i'th was dithau.

A gwARTH a gw'r adwydd gwisger hwy,
 ac fwyfwy y dêl attynt:
A mantell lacs, o g'wilydd mawr,
 gwifg di hyd lawr am danyst.
Ond fi, gan ddiolch i'm Ior maw,
 a'm genau mawl a ganaf:
A rof glod i'w enw cu,
 lle bytho'r llu yn amlaf:
O herwydd ar ddeheulaw'r tlawd
 y saif ddydd brawd yn gefnog,
 I gadw ei enaid ef yn gu,
 rhag ei farnu yn euog.

PSALM CX.

D'Wedi'r Arglwydd wrth f' Arglwydd mau,
 Ar fy llaw ddehau eistedd,
 Nes rhoddi'r rhai a gain dy waed,
 yn fainge draed it', i orwedd.
R Arglwydd denlynn ffwrdd y nerth
 o ddinans fawrwerth Seion:
 Pan lywodraethch yn eu myfg,
 gwna derfyg ar d'elynion.
Yn nydd dy nerth dy bobl a ddaw
 ag aberth llaw'n 'wyllysgar:
 Yn fanctaidd hardd daw'r cynnrych tau
 o wlith y borau hawddgar.
Yr Arglwydd tyngodd, ac ni wad,
 Ti fy'n Offeinad bythol,
 Wrth urdd Melchisdec odd' fry,
 a bery yn dragwyddol.
Yr Arglwydd ar dy ddehau law
 brenhinoedd draw a friwa:
 Yn nydd ei ddig gwna'n archollion
 frenhinoedd cryfion, medda'.
Ar y cenhedloedd rhydd farn iawn,
 a'u gwlad gwna'n llawn celanedd:
A llawer pen, dros wledydd mawr,
 a dyr i lawr yn unwydd.
O wir frys i'r gyflafan hon,
 fe yf o'r aion netaf'
A galgo ar ei ffordd yn rhwydd;
 a'r Arglwydd a'i dyrchaf.

PSALM CXI.

CLODFORAF fi fy Arglwydd Ion,
 o 'wyllys calon hollo,
 Mewn cynnuleidfa ger eu bron,
 mewn tyrfa gyfion rasol.
Mawr iawn yr gwyrthiau'n Harglwydd ni,
 hyfrys i'w bawb a'i hoffant:
Ei waith a'i iawnder pery byth,
 a'i wehelyth ogoiant.
R Arglwydd a wnaeth ei goffau,
 am ryfeddodau nerthol.
Can's Arglwydd noddafawr yw i ni,
 llawn o dofturi rasol.
Ei bob rhai a'i hofnant ef
 rhydd gyfran gref at fywyd:
Ac yn dragwydd y myn fod
 cof o'i gyfammod hefyd.
Mynegodd ef i'w bobl i gyd
 gadernyd ei weithredoedd:
A rhoddi iddynt hwy a wnaeth
 'tieddiaeth y cenhedloedd.
Gwirionedd a barn ydyw gwaith
 ei ddwy law brrifath efo:
Ai orchymion sy ffyddlon iawn;
 a da y gwnawn eu gwrando.
Yrhai'n sy gwedi eu sicrhau
 dros byth yn ddecdafau cyfion:
 Gwedi cu gwneuthur hwy mewn hedd,
 a thrwy wirionedd union.

PSALM CXI, CXII, CXIII, CXIV, CXV.

9 Anfonodd gymmorth i 'w bobl ef,
cyfammod gref safadwy:

Archoddi hyn; bo i 'w enw fawl,
faneteiddiawl ac ofnädwy.

10 Dechreuaud pob doethineb ddofn
i bawb, yw ofn yr Arglywydd:
Da yw deall y fawl i 'g gwyliau,
a'i ofn a fai'n dragwydd.

PSALM CXII.

D Edwyddol yw, mewn buchedd dda,
y fawl a olna'r Arglywydd:

A'i orchymynion anwyl ynt;
bydd iddo helyst hylwydd.

2 Ei had fydd nerthol yn y tir;
bendithir hil rhai union:

3 Golud a chyfoeth yn er dy,
dros byth, y pery'n gyfion.

4 Yr union, yn y tywyll cau,
caiff fod i olau weled:
Yttyriol, a thofturiol iawn,
a chyflawn, fydd ei weithred.

5 Gwr da a fydd trngarog fywn;
rhydd echwyn a chymwynys:
A'i air mewn pwylly a barn a rydd,
a'i weithred fydd yn addas.

6 Ni 'sgogir byth y cyflawn; gwna
ei goffa yn dragwydd:

7 A chalon ddiifigl, ddywys, ddiofn,
a fail ddofn yn yr Arglywydd.

8 Hwn yn nerth Duw diolnog fydd,
ac ateg fydd i 'w galon:
Hyd oni chaffo, trwy lawn wýs,
ei 'wyllys o'i elynion.

9 Rhannodd a rhoes i'r tlawd yn hý
byth pery ei gyflawnedd:

A chlynder ei goron, yn wir,
drychfer mewa gogoneidd.

10 Yr anwir edrych; i'r fromma o ddig,
trwy ffyrngi yigyrngiad:
Yr annwyl a dawdd; fal hyn
fydd terfyn eu dynuniad.

PSALM CXIII.

C HWI weision Duw, molwch yr Ion,
Molwch ei enw a llafar dón:

2 Bendigaid fydd ei enw ef.

3 O godiaid haul hyd faciliad dydd,
Mawr enw yr Ion molianus fydd,
yn y byd hwn, ac yn y nef.

4 Dyrchafodd Duw uwch yr holl fydd,
A'i foliant aeth uwch nef i gyd.

5 Pwy fy gycyflybi'n Duw ni?

Yr hwn a breiwl yn y nef,

6 I'r ddaear hon darostwng ef,
gwelef ei cam, clyw ef ei cri.

7 Yr hwn fy'n codi i'r tlawd o'r llwch,
A'r rheidus o'i ddiifylwch,

8 I'w gofod uwch pennathiaid byd,
9 I'r ammhlantadwy mae'n rhai plant,
Hil teg, a thylwyth, a llwyddiant:

am hyn molienwch Dduw i gyd.

PSALM CXIV.

P AN ddaeth Israél o'r Afon Iaith,
A thy Iago o estron iain:

2 Juda oedd ei faneteiddiwydd ef,
Israél oedd bennathiaeth Ior.

3 Gwelodd hyn, bendithiawl y mór,
a throes i 'w hol Iorddonen gref.

4 Neidiai'r mynyddoedd megis hyrdd;

A'r bryniau fel wyn llament ffyrdd;
cawfani waftad megis llawr dól.

5 Ciliait (O for) dywaid paham?
Tithau, Iorddonen lajhraidd lam,
pa'm y dadredaist dithau'n d'ol?

6 Chwychwi fynyddoedd, pa'm y ffœch

Fel hyrddod? a pha'm nad arhoech,
a chwithau, fryniau, fel wyn mân?

7 Am mai rhaid ofni Duw Iago,
8 Yr hwn sy'n troi'r graig yn llyn tro,
a'r callestr yn ffynnon dŵr glân.

PSALM CXV.

N ID i ni, Arglywydd, nid i ni,
y dodi y gogoneidd:

Ond i'th enw dy hun yn hawdd,
